**Atodiad 5**

**Cwestiynau ychwanegol Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 10-4-25**

1. Sut ydych wedi asesu grym gweithredol geiriad y Polisi Iaith newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gosod trefn a meini prawf y mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â hwy?

Yn dilyn cais gan benaethiaid ysgolion Gwynedd yn ystod y broses ymgysylltu yng nghyd destun diwygio'r Polisi Iaith gofynnwyd yn benodol am ddogfen gryno. I'r perwyl hwn felly rydym wedi llunio dogfen gryno a chadarn sy'n amlinellu amcanion y polisi ym mhob cyfnod o addysg statudol plentyn. Mae'r polisi yn gosod trefn a meini prawf penodol i ysgolion gydymffurfio â hwy. Yn ogystal rydym wedi llunio Polisi un tudalen yn benodol ar gyfer staff ysgolion er mwyn rhoi trosolwg cyflym o nodau ac amcanion y polisi.

2. Sut byddwch yn monitro bod ysgolion yn gweithredu yn unol â'r Polisi Iaith newydd?

Cyfrifoldeb cyrff Llywodraethwyr ysgolion yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau Cyngor Gwynedd ym maes addysg. Bydd Cyngor Gwynedd yn casglu data gan ysgolion ynghylch eu cydymffurfiad â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd pob ysgol a chorff Llywodraethol yn cyflwyno'u blaenoriaethau datblygu'r Gymraeg i Gynllun Datblygu Clwstwr Cynradd/Uwchradd. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gytuno gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deilliannau'r CSGA ynghyd â'i fonitro.

Yn y cyd-destun hwn, ac wrth ystyried cynlluniau ehangach y Llywodraeth i fonitro'r datblygiadau hyn, nodir yng nghanllaw'r Llywodraeth:

*Defnyddir cynlluniau datblygu ysgolion unigol gan Estyn i ddarparu cyd-destun cyn ymweliadau arolygu a monitro. Bydd sicrhau bod cynlluniau ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol yn golygu y gellir nodi ac ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'i datblygiad yn gywir fel rhan o brosesau monitro Estyn. Bydd hyn yn dod yn fwy perthnasol fyth wrth i Estyn geisio rhoi mwy o sylw i asesu'r ystod lawn o brofiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn y Gymraeg fel rhan o'i fframwaith asesu.*